Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

# FFORWM CYLLID YSGOLION
## Dydd Llun 27 Mawrth 2023
**(Ysgol Uwchradd Afon Taf)**

## N O D I A D A U

**YN BRESENNOL:**
Keith Maher (Ysgol Uwchradd Pen y Dre) - Cadeirydd
Stuart James (Afon Taf)
Sarah Hopkins (Blessed Carlo Acutis)
Owen Morgan (Ysgol Gynradd Parc Cyfarthfa)
Laurence Matuszczyk (Ysgol Gynradd Edwardsville)
Rhiannon Stephens-Davies (Ysgol Arbennig Greenfield)
Paul Phillips (Ysgol Gynradd Gwaunfarren)
Mike O'Neill (Ysgol Uwchradd Pen y Dre)
Ryan Morgan (Partneriaeth Dysgu Taf Bargoed)
Simone Roden (Ysgol Gymunedol Ynysowen)
David Anstee (Ysgol Gynradd y Graig)
Sue Walker (Cyfarwyddwr Addysg)
Councillor Andrew Barry (Portffolio'r Cabinet ar gyfer Llywodraethu ac Adnoddau)
Steve Jones (Prif Swyddog Cyllid)
Anthony Lewis (Pennaeth Cynllunio, Cymorth ac Adnoddau Ysgolion)

**YN GWEINYDDU:**
Joanna Lewis (Rheolwr LMS)
Gary Winston (Clerc y Fforwm)

**YMDDIHEURIADAU:**
Sarah Townsin (Ysgol Coed y Dderwen)
Ian Kent (Cyfrifydd Addysg)

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| 1. | **Croeso**<br>Croesawodd y Cadeirydd bawb gan ddiolch i Afon Taf am gynnal y cyfarfod. |
| 2. | **Cofnodion**<br>Cytunwyd fod cofnodion y cyfarfodydd canlynol yn gywir:<br>• Cyfrafod Fforwm yr Ysgolion – 18 Ionawr 2023<br>• Cyfrafod Fforwm yr Ysgolion – 2 Chwefror 2023 |
| 3. | **Materion yn codi o'r cofnodion**<br>Esboniodd y Cadeirydd ei fod wedi derbyn llythyr gan Grŵp Llafur Cyngor Merthyr a'i fod yn anghytuno â sylwadau'r Cynghorydd Barry yn y cyfarfod ar 2 Chwefror ynghylch y toriadau i gyllidebau ysgolion. Maent am bwysleisio nad ydynt yn cytuno â'r toriadau. |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | **SW: Mae'r sylwadau yn siomedig gan nad yw hwn yn fforwm gwleidyddol.**<br>AB: Cytunaf. Dylen eu cofnodi ond symud ymlaen.<br><br>PP: Dwi ddim yn gwybod sut ddigwyddodd hyn ond ni ddylai'r grŵp droi'n fforwm gwleidyddol. |
| **4.** | <u>**Diweddariad Cyllido CAD**</u><br>Cyflwynodd Anthony Lewis bapur yn amlinellu'r canlynol:<br><br>• Cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i LRB cynradd.<br>• Adborth gan Benaethiaid ac argymhellion cyllid y dylid rhoi ystyriaeth iddynt.<br>• Addasrwydd y model cyfredol.<br>• Ystyriaethau ychwanegol.<br>• Cyllid a ddarperir ar hyn o bryd i LRB uwchradd.<br>• Adborth gan Afon Taf ac argymhellion cyllid y dylid rhoi ystyriaeth iddynt.<br>• Addasrwydd y model cyfredol.<br>• Ystyriaethau ychwanegol.<br><br>• Argymell y ffordd ymlaen:<br>• Ariannu costau athro o Fedi 23<br>• Parhau i ariannu CCD drwy ddefnyddio'r model cyfredol yn Ebrill 23 gan nad oes gan yr un ysgol lai o gyllid yn dilyn y model cyfredol hwn.<br><br>• Grŵp Llywio AAY/Grŵp Gorffen a Gorchwyl CAD i adolygu'r canlynol yn ystod 23/24 ac adrodd yn ôl i'r Fforwm Cyllid Ysgolion ar unrhyw newidadau ychwanegol y dylid eu gweithredu o Ebrill 24:<br><br>  ○ Lefelau cyllid cyfredol ar gyfer adnoddau a chyflenwi.<br>  ○ Os oes angen dyraniadau cyllido newydd ar gyfer atgyweiriadau i FF ac E, lwfansau car, RRA ychwanegol ac eithemau eraill os oes angen.<br>  ○ Lefel cyllido cyfredol ar gyfer Cydlynwyr AAY. Amser mewn CAD uwchradd a dyraniad cyllid newydd ar gyfer Cydlynwyr AAY. Amser mewn CAD Cynradd.<br>  ○ Niferoedd CCD/CCD Uwch sydd angen eu cyllido drwy'r fformiwla ar gyfer pob dosbarth.<br>  ○ Capasiti disgybl ar gyfer pob dosbarth.<br>  ○ Lefel cyllid AWPU a ddarperir ar gyfer disgyblion CAD uwchradd pan fyddant mewn prif ffrwd.<br>  ○ Niferoedd o ddosbarthiadau CAD uwchradd i'w cyllido.<br><br>Gofynnwys am safbwyntiau aelodau:<br><br>**SR: Yn y model uwchradd, maent yn derbyn £10,000 ar gyfer amser rheoli ond does dim yn y model cynradd?**<br>AL: Cododd hyn yn sgil trafodaethau a defnyddiwyd trefniadau'r cynllun peilot i fynd i'r afael â'r mater.<br><br>**SR: Mae'r un problemau'n effeithio Ysgolion Cynradd?**<br>AL: Ydynt a thrafodwyd hyn yn ystod yr ymgynghoriad. |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | SL: Mae angen gwell cydraddoldeb rhwng modelau.<br><br>**LM: Yn y daenlen, sydd yn dangos effaith y newidiadau, mae dosbarthiadau SBLD ar eu colled yn ariannol. Oes rheswm dros hyn?**<br>JL: Mae hyn yn sgil ariannu cyflogau a chael athrawon ar gyflog is na'r cyfartalog.<br><br>**LM: Byddwn yn meddwl y byddai gan ddosbarthiadau SBLD fwy o angen na dosbarthiadau LRB ac y dylai hyn gael ei ystyried?**<br>KM: Nid wyf yn ymwybodol o wahaniaethau yn y ddogfen amodau a thelerau cyflog athrawon.<br><br>RSD: Yn fy ysgol, mae pob un aelod o'r staff dysgu yn derbyn lwfans AAY sydd yn eu telerau a'u hamodau.<br><br>**LM: Gallwch gael dwy lefel o lwfans AAY – AAY 1 ac AAY2. Sut mae'r ALl yn pennu pa un sydd yn cael ei roi?**<br>AL: Ar hyn o bryd rydym yn talu yr hyn y mae'r ysgol wedi ei dderbyn trwy'r cyfrifiad cyflog blynyddol.<br><br>**OM: Nid yw'n deg fod staff mewn dosbarthiadau CAD gwahanol yn cael eu talu ar wahanol lefelau.**<br>AL: Mae hyn yn rywbeth y gall y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ei ystyried.<br><br>**KM: Dylid edrych ar hyn. Ar hyn o bryd, mae corff llywodraethu pob ysgol yn cytuno ar strwythur lwfans a TLR.**<br><br>Cafwyd pleidlais a phenderfynwyd y dylai athrawon dosbarthiadau CAD gael eu hariannu yn ôl cyflog o Fedi 2023 ac y dylai'r grŵp LRB T&F adolygu trefniadau ariannu o Ebrill 2023 yn unol â'r ffordd arfaethedig o symud ymlaen. |
| **5.** | **<u>Gwerthusiadau CLG</u>**<br>Esboniodd Joanna Lewis fod y Grŵp Gwaith wedi ystyried opsiynau amgen ar gyfer gwerthudo CLG sydd gan ysgolion â'r ALl.<br><br>Cyflwynwyd pedwar opsiwn ac roedd y Grŵp Gwaith yn ffafrio Opsiwn 3 (cynnwys sgor cyffredinol ar gyfer y CLG – dim dyfarniadau ar gyfer meini prawf unigol; sylwadau yn unig.) Hoffwyd yr opsiwn IE/NA yn Opsiwn 4 felly rydym wedi ychwanegu opsiwn sydd yn cyfuno'r nodweddion hyn a'i ychwanegu fel Opsiwn 5.<br><br>SR: Rwy'n teimlo ei fod yn wastraff amser gan nad oes gennym, fel arfer unrhyw beth i'w ddweud.<br><br>LM: Nid wyf yn deall pam ein bod yn derbyn gwasanaethau sydd â sgor uchel a bod pobl yn cwyno amdanynt. Efallai fod angen i ni ailystyried a chynnal trafodaeth. Gall trafodaeth arwain at bethau diddorol.<br><br>JL: A allaf gael eglurdeb fod opsiwn 3 yn sgor cyffredinol a sylwadau a bod Opsiwn 5 yn sgor |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | cyffredinol a rhagor o gwestiynau.<br><br>**RM: Mae'r ddau fodel yn gofyn pa feysydd sydd angen eu datblygu. Gallen dderbyn 23 ymateb i'r cwestiwn felly nid wyf yn gwybod beth y byddwn yn gwneud bryd hynny.**<br>JL: Rydym fel arfer yn anfon gwerthusiadau allan ar ddechrau tymor yr haf a'u rhannu â gwasanaethau yn ogystal ag adrodd yn ôl i Fforwm yr Ysgolion. Penderfynir bryd hynny pa wasanaethau y dylid eu trafod ymhellach, yn seiliedig ar yr ymatebion.<br><br>**PP: Beth oedd sylwadau'r Grŵp Gwaith?**<br>SJ: Y brif bryder oedd faint o amser oedd ei angen i'w cwblhau.<br><br>**AB: Oes angen dadansoddiad busnes er mwyn cymharu ffyrdd amgen o ddarparu'r gwasanaethau hyn?**<br>AL: Gwnaethpwyd hyn o'r blaen a'r bwriad yw gwneud ymarfer cyffelyb yn ystod y blynyddoedd nesaf.<br><br>AB: Mae'n bwysig fod gennym y model busnes gorau. Mae'r broses hon ym teimlo'n hirwyntog ac rwy'n derbyn eich pwynt.<br><br>SR: Mae'r system yn gweithio er mwyn casglu gwybodaeth gan ein bod yn derbyn 100% y ôl ond mae effaith yr ymarfer yn fach ac nid yw'n cyfrannu at welliant y gwasanaeth. Weithiau, byddwn yn derbyn galwad ffôn yn gofyn am sylwadau ond nid yw'n arwain at welliannau.<br><br>AL: Rydym yn gofyn i reolwyr gwasanaeth drafod pryderon â phenaethiaid ac mae meysydd blaenoriaeth hefyd yn cwrdd â chynrychiolwyr o'r grŵp er mwyn trafod gwelliannau. Rydym wedi bod yn cynnal y gwerthusiad ers sawl blwyddyn ac mae'n cael ei gydnabod i fod yn ymarfer da. Mae angen i wasanaethau wella ac mae'r dystiolaeth flynyddol yn cefnogi'r ffaith fod hyn yn gweithio'n dda, yn y mwyafrif o achosion. Ni allwn orffwys ar ein rhwyfau ac rydym yn parhau i wella'r system a mynd i'r afael â phroblemau.<br><br>**KM: Os nad oes rhagor o gwestiynau, gallwn bleidlesio i fabwysiadu Opsiwn 3 a'i peidio?**<br><br>Cytunwyd y dylid mabwysiadu Opsiwn 3 fel dull i werthuso CLG.<br><br>AL: Byddwn yn cysylltu ag ysgolion unwaith yn rhagor er mwyn trafod materion y trafodwyd cyn hyn. Mae'r mwyafrif o bryderon wedi cael eu trafod ond mae ambell fater yn weddill. O ran Gwasanaethau Eiddo, cefais gyfarfod â Chris Jones yr wythnos ddiwethaf a bydd ef yn awr yn cysylltu â phenaethiaid i drafod ambell fater hirdymor ymhellach. |
| **6.** | **<u>Unrhyw fater arall</u>**<br><br>6.01 <u>Caffael</u><br>Nododd AB fod aelodau o'r Tîm Caffael wedi cwrdd â'r grŵp ac maent wedi cwblhau eu dadansoddiad o wariant ysgolion ac maent am drefnu gweithdy er mwyn trafod eu canfyddiadau. |

| Rhif | Trafodaeth/Camau Gweithredu |
|---|---|
| | AL: Gallwn ystyried hyn ymhellach yn y Grŵp Gwaith.<br><br>6.02 Cyllid Addysg<br>**LM: Yn ystod y cyfnod heriol hwn i ysgolion, a allwn edrych ar y gyllideb addysg, yn ei grynswth? Gan gynnwys costau CSC mewn cyfarfod y y dyfodol?**<br>AL: Gallwn ddod â rhagor o wybodaeth i'r cyfarfod ym mis Gorffennaf. |